*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 256(3) a (5) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U  D R A F F T

# 2025 Rhif (Cy. )

# TAI, CYMRU

# Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2025

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Deddf Landlord a Thenant 1987 ("Deddf 1987") a Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2022 ("Rheoliadau 2022"), o ganlyniad i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ("Deddf 2016").

Mae rheoliad 2 yn diwygio adran 3 o Ddeddf 1987 i ddarparu nad yw tenantiaid o dan gontractau meddiannaeth (gweler adran 7 o Ddeddf 2016) yn denantiaid cymwys at ddibenion Rhan 1 o Ddeddf 1987.

Mae rheoliad 3 yn hepgor paragraff (2) o reoliad 15 o Reoliadau 2022 am ei fod wedi ei ddisodli gan y ddarpariaeth a wneir yn rheoliad 2.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r offeryn hwn.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 256(3) a (5) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

---

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U   D R A F F T

---

# 2025 Rhif (Cy. )

# TAI, CYMRU

# Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2025

*Gwnaed* ***

*Yn dod i rym* *13 Mehefin 2025*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 255(1)(a) a (2) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016(**1**).

Yn unol ag adran 256(3) a (5) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru(**2**) ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

### Enwi a dod i rym

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2025 a deuant i rym ar 13 Mehefin 2025.

### Diwygio Deddf Landlord a Thenant 1987

**2.**—(1) Mae Deddf Landlord a Thenant 1987(**3**) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

---

(**1**) 2016 dccc 1. Diwygiwyd adran 255(2) gan adran 14 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021 (dsc 3) a pharagraffau 1 ac 8 o Atodlen 5 iddi.

(**2**) Mae'r cyfeiriad yn adran 256(3) a (5) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**3**) 1987 p. 31.

(2) Yn adran 3(**1**) (tenantiaid cymwys)—

(a) yn is-adran (1)—

(i) ar ddiwedd paragraff (d) mewnosoder "or";

(ii) hepgorer paragraffau (e) ac (f);

(iii) ar y diwedd mewnosoder—

"(g) a tenancy that is an occupation contract (within the meaning of the Renting Homes (Wales) Act 2016 (anaw 1) (see section 7 of that Act))."

(b) hepgorer is-adran (5).

**Diwygio Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2022**

**3.** Hepgorer paragraff (2) o reoliad 15 o Reoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2022(**2**).

*Enw*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad

(**1**) Diwygiwyd adran 3(1) gan adrannau 119 a 140 o Ddeddf Tai 1988 (p. 50), a pharagraff 2(1) o Atodlen 13 iddi, ac Atodlen 18 iddi, a chan reoliad 15(1) a (2)(a) o O.S. 2022/1166 (Cy. 241). Mewnosodwyd adran 3(5) gan reoliad 15(1) a (2)(b) o O.S. 2022/1166 (Cy. 241).

(**2**) O.S. 2022/1166 (Cy. 241).